



Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Adroddiad Blynyddol y Gymraeg
2023 - 2024



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Newid diwylliant, datblygu staff a bod yn sefydliad dwyieithog

Changing culture, developing staff and becoming a bilingual organisation

CYNNWYS

CYFLWYNIAD

IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU

PWRPAS YR ADRODDIAD BLYNYDDOL HWN

ATEBOLRWYDD A CHYMORTH

CYFLENWI GWASANAETHAU

LLUNIO POLISI

GWEITHREDOL

CADW COFNODION

MEYSYDD BLAENORIAETH

GWYBODAETH BELLACH

CYFLWYNIAD

Sefydloodd Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â Safonau.

Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau o fewn GIG Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Ni roddir Safonau i Awdurdodau Iechyd Arbennig ond rydym wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ac wedi ymrwmo i ddarparu lefel o wasanaethau Cymraeg sy'n cyfateb i Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu mabwysiadu gan sefydliadau cyhoeddus tebyg yng Nghymru.

Nod ein Cynllun Iaith Gymraeg yw:

- rhoi mwy o eglurder i'r sefydliad ynglŷn â'i ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- rhoi arweiniad i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio yn y broses o ddarparu a datblygu gwasanaethau; ac
- mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

DIGITAL HEALTH AND CARE WALES

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020. Mae adran 6 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn nodi bod 'corff cyhoeddus' yn golygu: Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan [adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006].

EIN PWRPAS: Gwneud digidol yn rym er gwell ym maes iechyd a gofal

EIN CENADAETHAU STRATEGOL YW:

- | | |
|------------------------|--|
| CENHADAETH
1 | Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol |
| CENHADAETH
2 | Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel |
| CENHADAETH
3 | Ehangu'r cofnod iechyd a gofal a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal |
| CENHADAETH
4 | Gyrru gwerth a chanlyniadau gwell trwy arloesi |
| CENHADAETH
5 | Bod yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel |

PWRPAS YR ADRODDIAD BLYNYDDOL HWN

Paratoir yr adroddiad hwn yn unol â'r camau gweithredu a amlinellwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg, a lanswyd ym mis Rhagfyr 2022, a bydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y ffordd rydym wedi cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.
 - Nifer y cwynion a gawsom yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag ef.
 - Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.
- Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle:
 - roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
 - roedd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;
 - roedd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
 - nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.
 - Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
 - Byddwn yn sicrhau bod copi cyfredol o'r adroddiad blynyddol hwn ar gael ar ein gwefan.

ATEBOLRWYDD A CHYMORTH

Ysgrifennydd y Bwrdd yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Gymraeg yn IGDC. Y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau a phrosesau i gefnogi gweithrediad ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae gan IGDC hefyd ddau Hyrwyddwr y Gymraeg ar y Bwrdd, a rhwydwaith o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n helpu i hyrwyddo a chefnogi ein nod o fod yn sefydliad dwyieithog.

Yn ogystal, mae gennym Grŵp Iaith Gymraeg o gynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth i helpu i gefnogi gweithrediad ein Cynllun Iaith Gymraeg.



CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae canllawiau a gweithdrefnau gweithredu safonol yn eu lle i gefnogi staff gyda darparu gwasanaethau.


Mae'r canllawiau'n cynnwys:

- Sut i ateb a delio â galwadau ffôn yn Gymraeg;
- Defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd;
- Protocol ar gyfer trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau;
- Trefnu cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Mae ein system teleffoni newydd yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i **ddewis eu hiaith**.

Mae 7 o staff ein Desg Wasanaeth yn siarad Cymraeg a 3 yn derbyn hyfforddiant magu hyder.

Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd bwrdd oherwydd y cynhelir **50% o'r cyfarfodydd yn Gymraeg ar gyfartaledd**.



CYFLENWI GWASANAETHAU CYFATHREBU

Mae gennym gyfrifon Cymraeg pwrpasol ar Facebook, Instagram ac X (Twitter). Mae ein cyfrif LinkedIn yn ddwyieithog.


Cynyddodd nifer y dilynwr ar X (Twitter) 22% i 155 a chynyddodd ymgysylltiad 81% i 6.39%

Cynyddodd nifer y dilynwr ar Facebook 87% i 73 a gostyngodd ymgysylltiad 8.2% i 4.57%

Dim ond ym mis Mawrth 2023 y sefydlwyd ein cyfrifon Instagram ac ar hyn o bryd mae gan y cyfrif Cymraeg 85 o ddilynwr gyda chyfradd ymgysylltu o 6.05%

Cynyddodd cyfanswm cyrhaeddiad (defnyddwyr unigryw a welodd ein cynnwys) ein cyfrifon Cymraeg 237% o 3,888 i 13,100 o ddefnyddwyr

Gwelodd ein cyfrif LinkedIn dwyieithog gynnydd o 34% i 7,033 o ddilynwr, a chynyddodd ymgysylltiad 77% i 9.5%



CYFLENWI GWASANAETHAU YMGYSYLLTU Â'R WEFAN



[IGDC.GIG.CYMRU](https://igdc.gig.cymru)

Tudalen	Nifer yr ymweliadau	Defnyddwyr	Ymweliadau fesul defnyddiwr (Cyfartaledd)	Amser ymgysylltu ar gyfartaledd
Hafan	23,208	1,135	20.45	5m 44e
Swyddi ar gael	848	452	1.88	49e
Ey Iechyd Ar-lein	259	167	1.55	25e
Cyflwyno Gwybodaeth	208	17	12.24	2m 42e
Moddion Digidol	200	64	3.13	40e
Cyfarfodydd Bwrdd IGDC	105	22	4.77	1m 04e
Canlyniadau chwilio	102	41	2.49	37e
Fideo Adroddiad Blynyddol	99	23	4.30	1m 11e
Cwrdd â'r Bwrdd	92	21	4.38	54e
Newyddion Diweddaraf	91	26	3.50	1m 00e


CYFLENWI GWASANAETHAU AP GIG CYMRU

Mae Ap GIG Cymru wedi'i ddatblygu o'r dechrau gyda siaradwyr Cymraeg yn profi prototeipiau mewn sesiynau un i un gyda Thîm Ymchwil Defnyddwyr Kainos.

Mae fersiwn we'r Ap ar gael yn ap.gig.cymru yn ogystal â app.nhs.wales ac mae dewis iaith wedi'i gynnwys yn yr Ap o'r eiliad y caiff ei lawrlwytho.

Mae'r dewis iaith yn cael ei sbarduno yn fersiwn yr Ap, felly os yw'r Gymraeg wedi'i gosod yn safonol yn nyfeisiau symudol y cyhoedd, mae hyn yn cael ei nodi.

Mae gennym ni hefyd fotymau adborth yn yr Ap fel bod pobl yn gallu gadael adborth yn Gymraeg, sy'n cael ei gyfieithu i Kainos a'r Ddesg Wasanaeth ymateb yn Gymraeg. Mae fideos cyfarwyddiadau ar gael yn Gymraeg hefyd.



LLUNIO POLISI

Yn IGDC, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhagweithiol yn y grwpiau canlynol:



<p>Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru (WIAG):</p> <p>Mae'n darparu sicrwydd ansawdd i dîm Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC).</p> <p>Yn canolbwyntio ar bob agwedd ar sicrwydd sy'n ymwneud â gwasanaethau gwybodeg cenedlaethol IGDC, gan gynnwys rhyngwynebau â gwasanaethau nad ydynt yn rhai IGDC.</p>	<p>Pwyllgor Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:</p> <p>Mae'n sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Ymchwil ac Arloesi:</p> <p>Mae'n ystyried yr Iaith Gymraeg o ddechrau'r prosiect.</p> <p>Annog cyswllt dwyieithog â chleifion a chyfranogiad mewn ymchwil yn y Gymraeg.</p>
--	--	---

Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo ac integreiddio'r Gymraeg o fewn mentrau IGDC.

GWEITHREDOL

Mae tudalen fewnrwyd ddwyieithog i staff yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Cyfleoedd dysgu Cymraeg a rhwydweithiau dysgu staff
- Defnyddio logo Cymraeg Gwaith ar gefndir MS Teams. Ac mae cortynnau gwddf newydd wedi'u creu i annog staff i ddechrau sgysiau yn Gymraeg
- Ychwanegu sgiliau Cymraeg at y Cofnod Staff Electronig (ESR)



Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig

Arweiniodd IGDC ddigwyddiad 'Defnyddia Dy Gymraeg' i staff GIG Cymru.


GWEITHREDOL

Arolwg Sgiliau a Dysgu Cymraeg Hydref 2023


Cwblhaodd 238 aelod o staff yr arolwg.

Mae 49 aelod o staff yn dysgu Cymraeg a 32 arall yn bwriadu dechrau dysgu yn y dyfodol.


Oes gennych chi sgiliau Cymraeg yn barod yr hoffech chi eu gwella yn ymarferol?




Os ydych chi'n dysgu ar hyn o bryd, pwy yw darparwr y cwrs?



Nodwch o'r opsiynau canlynol lefel eich sgiliau Cymraeg presennol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y lefelau sgiliau ar y dudalen SharePoint Cymraeg (adran ESR).



Os ydych chi'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, nodwch lefel y cwrs



GWEITHREDOL

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r cwrs Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant statudol a gorfodol. Caiff cydymffurfiaid â hyn ei fonitro trwy'r broses arfarnu perfformiad. **Roedd 95% o staff wedi cwblhau'r cwrs erbyn diwedd mis Mawrth 2024.**

Mae'r holl staff newydd hefyd yn mynychu sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ychwanegol gyda'r Rheolwr Cyfieithu fel rhan o'r broses ymsefydlu.




Rydym wedi datblygu offeryn asesu sgiliau Cymraeg newydd sy'n rhan o'r broses craffu a chymeradwyo swyddi.

Mae ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog IGDC yn cynnwys gwybodaeth am:

1. Y Broses Asesu Sgiliau Cymraeg
2. Protocol Recriwtio
3. Data Sgiliau Iaith Gymraeg y Cofnod Staff Electronig (ESR)
4. Datblygu Sgiliau Cymraeg y Staff

CADW COFNODION


Yr Iaith Gymraeg - Lefelau Gwrando a Siarad fel % o'r gweithlu



Mae **96.8%** o staff wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig

Mae **9.8%** o'r gweithlu yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Cymraeg Lefel 1 i 5 Wedi'i Gyflawni



Mae gan **44.3%** o staff o leiaf lefel cwrteisi yn y Gymraeg


Cwynion

Cawsom un gŵyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â phroses mewngofnodi Ap GIG Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a GIG Digidol i sicrhau bod y broses mewngofnodi yn ddwyieithog yn y dyfodol. Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg ein hymateb a phenderfynu peidio â lansio ymchwiliad ffurfiol.

CADW COFNODION SGILIAU CYMRAEG

Mae'r graff yn dangos gostyngiad graddol yn y ganran o staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg, sy'n golygu bod y nifer o staff sydd ag o leiaf lefel cwrteisi yn y Gymraeg yn cynyddu. (Lefel 1 ar 30.7% ar hyn o bryd).

Cymraeg Lefel 0 fel canran o weithlu IGDC



CADW COFNODION


Swyddi Newydd a Gwag

DOSBARTHWYD NIFER Y SWYDDI FEL A GANLYN:

Sgiliau Cymraeg yn hanfodol




Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg



Sgiliau Cymraeg yn ddymunol



Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol



Rydym wedi **CYFIEITHU 165 O SWYDD-DDISGRIFIADAU** rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024

Hysbysebwyd pob un o'r 356 o **SWYDDI YN DDWYIEITHOG**

Mae ein templed swydd-ddisgrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr recriwtio ddewis lefel gofynion sgiliau'r swydd ar ôl cwblhau asesiad.

MEYSYDD BLAENORIAETH




Canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn cyrraedd lefel cwrteisi yn y Gymraeg fel yr amlinellir yng Nghynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027.



Asesu ac ymateb i ofynion penodol y Gymraeg mewn perthynas â systemau digidol IGDC a argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn ei Chynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027.



Presenoldeb mewn ffeiriau gyrfaoedd yng Nghymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau eraill i hyrwyddo cyfleoedd yn IGDC.



Datblygu a hyrwyddo tudalen we 'Hwb Iaith' newydd i rannu arferion gorau ym maes iechyd a gofal.



Datblygu sgiliau Cymraeg staff trwy hyfforddiant a gweithgareddau magu hyder sydd wedi'u targedu.



Cynyddu nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol sy'n cael eu hysbysebu a'u recriwtio.



Cydweithio â phartneriaid GIG Cymru i rannu arferion gorau a threfnu digwyddiadau diwylliannol.

GWYBODAETH BELLACH

Cynllun Iaith Gymraeg



[Cynllun Iaith Gymraeg 2022-2025](#)



[Welsh Language Scheme 2022-2025](#)

Adroddiad Blynyddol Mwy Na Geiriau 2023-2024

Link to follow